# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 17 Mawrth 2004

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A yw'r Prif Weinidog wedi derbyn ymateb oddi wrth Andrew Smith AC ynghylch ôl-daliadau pensiwn i gyn-weithwyr Allied Steel and Wire. (WAQ33326)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba grantiau busnes gan y Cynulliad a'r WDA a roddwyd i fusnes Antur Dwyryd Llyn. (WAQ33333)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** Pa archwiliadau a gynhelir i sefydlogrwydd ariannol cwmni cyn rhoi grantiau busnes y Cynulliad a'r WDA iddynt. (WAQ33332)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y setliad a roddwyd i Fwrdd Croeso Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer grantiau cymorth buddsoddi. (WAQ33331)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y penderfyniad i wrthod y cais am grant oddi wrth Fwrdd Croeso Cymru, cyfeirnod y grant 10482. (WAQ33383)

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Alun Ffred Jones (Caernarfon);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i gydweithwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol yn San Steffan, ynghylch y Treialon ar Ffermydd Cyfan. (WAQ33327)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i ddatblygu cwmnïau bwyd cydweithredol yng Nghymru. (WAQ33328)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Yn dilyn ei hateb i WAQ32814 a

wnaiff y Gweinidog restru'r taliadau sefydlog sy'n cael eu codi am bob triniaeth o dan yr ail gynllun a gynigir. (WAQ33487)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y triniaethau ar gyfer Asthma yng Nghymru. (WAQ33334)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa amcangyfrifon sydd gan y Gweinidog o'r anghenion staffio ar gyfer y galwedigaethau Meddygaeth, Fferylliaeth, Deintyddiaeth ac Optometreg am y 10 mlynedd nesaf, fesul ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol, i gwrdd ag anghenion ei gynlluniau ar gyfer darparu gwasanaethau gofal iechyd yn y dyfodol. (WAQ33335)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gau rhagor o Swyddfeydd Post yng Nghymru. (WAQ33329)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i greu Sefydliad Ariannol Datblygu Cymunedol i Gymru. (WAQ33330)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i roi grantiau i'r mudiad Clybiau Bechgyn a Merched yng Nghymru i helpu eu gwaith mewn cymunedau ledled Cymru. (WAQ33488)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Cymraeg a Chwaraeon*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwasanaeth di-dâl yn y Bannau Brycheiniog i ddarogan y tywydd ar y mynydd. (WAQ33336)